

ATODIAD A

Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon

Rhagarweiniad

Dylid nodi y cyflwynir y Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac amcangyfrifir y targedau a osodir wedi eu seilio ar y wybodaeth gyfredol sydd ar gael.

Rhesymwaith

Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon wedi ei ddatblygu er mwyn adnabod a gweithredu gweithredoedd a mesurau a fydd yn helpu lleihau Ôl Troed Carbon Y Drindod Dewi Sant yn unol â gofynion cyfreithiol.

O gofio prif ddangosydd perfformiad y Brifysgol i wella'n safle yng Nghynghrair Werdd y Bobl a'r Blaned, mae datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu o'r fath yn cynnig cyfle i wella'n sgôr yn sylweddol mewn perthynas â rheoli carbon.

Mae'n gynllun a luniwyd fel rhaglen o welliant parhaus ac felly fe'i datblygir yn unol â deddfwriaeth gyfredol ac er mwyn cwrdd ag anghenion a dyfodol Y Drindod Dewi Sant.

Mesurau yr Ymgwymerwyd â Hwyl Eisoedd

Mae'r mesurau a gyflwynwyd/yr ymgwymerwyd â hwyl eisoedd yn cynnwys:-

- Rhesymoli Contractau Cyfleustodau.
- Dadansoddiad Tariff ar gyfrifon trydan er mwyn adnabod cyfleoedd i leihau costau
- Gweld cyfrifon cyfleustodau ar-lein yn arwain at gasglu data'n fwy effeithlon
- Ailosod bwyleri mewn rhannau o gampysau Caerfyrddin & Llambod.
- Gosod yn rhannol System Rheoli Ynni adeiladau yng Nghaerfyrddin & Llambod ill dau
- Uwchraddio goleuadau gan gynnwys gosod Goleuadau Adnabod Presenoldeb

Gweithredodd a Gynigir

Cynigir y dylid symud ymlaen gyda'r gweithredoedd a restrir yn y Tabl isod yn ystod 2016/17.

<u>Mater</u>	<u>Gweithred</u>	<u>Gan Bwy</u>	<u>Erbyn Pryd</u>	<u>Targedau Amcangyfrifol</u>
Gweithredu Rhaglen Monitro & Thargeddu Ynni i ymgorffori Monitro'r Defnydd o Ynni'n Fanwl	Mae prynu Pecyn Rheoli Ynni yn hanfodol er mwyn adrodd a monitro'n fanwl	DSM	Mawrth 2016	Gostyngiad 3% y flwyddyn yn y defnydd o ynni
Parhau i Weithredu Mesuryddion SMART	Caerfyrddin a Llambod	DSM/CJ	Rhaglen barhaus	Gostyngiad 10% yng nghyfanswm y carbon ar draws yr adeiladau i gyd os y'i gweithredir ar bob campws
Mesurau Defnyddio/Cynilo Dŵr	Ar Draws y Campysau – Cynnal arolygon/archwiliadau i adnabod gollyngiadau dŵr ac asesu'r angen i gael mesuryddion a dyfeisiau cynilo dŵr	DSM	Archwiliadau i'w paratoi erbyn Mehefin 2016. Y defnydd o ddŵr i'w fonitro fel proses barhaus	Gostyngiad 3% y flwyddyn yn y defnydd/m ³ o ddŵr
Adolygu Ailosod y Bwyleri (SALIX)	Caerfyrddin & Llambod – gosod bwyleri newydd a chynnal adolygiad o systemau gwresogi dŵr	DSM/CJ	Campws Caerfyrddin – y gwaith gosod i'w gwblhau mewn Blociau. Gwaith gosod i'w gwblhau yn 2016 cyhyd â bod cyllid SALIX ar gael	Gostyngiad 5% y flwyddyn yn y defnydd o ynni
Uwchraddio Goleuadau (gan gynnwys) Systemau Rheoli Goleuadau	Ar Draws y Campysau – Cynnal arolygon/archwiliadau i asesu hyfywedd gosod goleuadau LED mwy	DSM	Archwiliadau i'w paratoi erbyn Mehefin 2016 Ymchwilio/Ymgymryd â Strategaeth Uwchraddio Goleuadau	Gostyngiad 3% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir ar oleuadau

<u>Mater</u>	<u>Gweithred</u>	<u>Gan Bwy</u>	<u>Erbyn Pryd</u>	<u>Targedau Amcangyfrifol</u>
	effeithiol a seilir ar ad-dalu yn lle'r goleuadau cyfredol		Erbyn Medi 2016	
Rheoli Goleuadau	Ar Draws y Campysau – Cynnal arolygon/archwiliadau i asesu hyfywedd gosod systemau rheoli goleuadau mewn parthau priodol sydd heb systemau rheoli a seilir ar ad-dalu	DSM	Archwiliadau i'w paratoi erbyn Mehefin 2016. Systemau Rheoli goleuadau i'w gosod erbyn diwedd 2016 yn amodol ar y gyllideb.	Gostyngiad 3% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir ar oleuadau
Cynllun Teithio	Ar Draws y Campysau – cynigion i leihau milltiroedd busnes a chynyddu'r defnydd o fideo-gynadleddau	GA/DSM/FW/BL/RO	Ar waith yn 2016	Gostyngiad 5% y flwyddyn mewn costau teithio, fesul Cyfadran Cynnydd 10% yn y defnydd o gyfleusterau fideo-gynadledda yn dechrau ym mis Mawrth 2016
Gweithredu Systemau Rheoli Gwres	Ar Draws y Campysau – Llunio cynllun a seilir ar ganlyniadau'r Arolygon/Archwiliadau Ynni i dargedu'r parthau gwaethaf Llunio gweithdrefnau/hyfforddi personél allweddol	DSM/CJ	Gweithdrefn yn ei lle erbyn Medi 2016. Hyfforddiant ar waith	Gostyngiad 5% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir ar wresogi

<u>Mater</u>	<u>Gweithred</u>	<u>Gan Bwy</u>	<u>Erbyn Pryd</u>	<u>Targedau Amcangyfrifol</u>
Codi Ymwybyddiaeth/Newid Ymddygiad fel rhan o'r Effaith Werdd	Ar Draws y Campysau – Llunio cynllun i godi ymwybyddiaeth o leihau carbon a gysylltir â newid ymddygiadol.	AS/DSM	Ar waith	Gostyngiad 3% y flwyddyn yn y defnydd o ynni
Gwastraff	Hybu ailgylchu ar draws pob campws	FW/DSM	Ar waith	Cyrraedd targed ailgylchu 60% ar draws y Brifysgol
Paneli solar ffotofoltaig	Edrych ar y potensial ar gyfer lleihau Carbon drwy osod paneli solar ffotofoltaig	DSM	2017 ond yn amodol ar argaeledd cyllid	Potensial ar gyfer gostyngiad 1% yng nghyfanswm y llwyth trydanol a osodir ar y campysau
Rhaglen Diffodd Cyfrifiaduron	Symud ymlaen gyda chynllun peilot diffodd TG i'w ymestyn i bob CP ar draws y campysau.	DSM/FW/Adran TG	Mehefin 2016 cyhyd â bod TG yn cydweithredu	Gostyngiad 5% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir
Pwll Nofio Campws Caerfyrddin	Adolygu'r offer Gwresogi ac Awyru a chynllun gweithredu'r pwll	DSM/CJ	Arolwg/Archwiliad gydag argymhellion Mawrth 2016	Gostyngiad 10% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddir yn Neuadd y Pwll.
Tystysgrifau Arddangos Ynni (DECs) ac Adroddiadau Ymgynghorol	Sicrhau y cedwir pob DEC ac Adroddiad Ymgynghorol yn ddiweddar	DSM	Ar waith, yn unol â dyddiadau dod i ben y DECs a'r Adroddiadau Ymgynghorol	Gradd 'D' ar gyfartaledd Ar Draws y Campysau
Contractau Cyflenwi Cyfleustodau	Cynilo wrth adnewyddu Contractau Cyflenwi Cyfleustodau	DSM/Briar Associates	Hydref 2017 ymlaen	2% y flwyddyn ar Gostau Trydan & 20% ar Gostau Nwy

<u>Mater</u>	<u>Gweithred</u>	<u>Gan Bwy</u>	<u>Erbyn Pryd</u>	<u>Targedau Amcangyfrifol</u>
				Yn amodol ar ymarfer tendro parhaus.